



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democraidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 7FED TACHWEDD, 2023

Lleoliad

Hybrid

**Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 30 Hydref 2023)

PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Nia Wyn Jeffreys
Menna Trenholme
Dafydd Meurig
Ioan Thomas

R Medwyn Hughes
June Jones
Olaf Cai Larsen
Dyfrig Siencyn
Gwynfor Owen

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Anne Lloyd-Jones

Beth Lawton
Rob Triggs

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2023/24

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol is-gadeirydd ar gyfer 2023/24

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

6. COFNODION

5 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10fed o Chwefror 2023 fel rhai cywir

7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd a hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

8. TYNNU RHESTR FER PENNAETH ADDYSG

I ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr.

Pecyn gwybodaeth a ffurflenni cais wedi ei dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor yn unig

PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION 10-02-23

Presenoldeb: Cadeirydd: Cyng. Dafydd Meurig
Is-gadeirydd: Cyng. Menna Jones

Cynghorwyr: Annwen Hughes, Nia Jeffreys, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Anne Lloyd-Jones, Gwynfor Owen, Angela Russell a Dyfrig Siencyn

Swyddogion: Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr June Jones, Ioan Thomas a Rob Triggs

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2022 fel rhai cywir

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL POLISI TÂL GWEITHLU'R CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi bod dyletswydd statudol ar bob Cyngor i baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol. Yn unol â phenderfyniad y Cyngor wrth fabwysiadu Polisi Tâl ar gyfer 2023/24, roedd disgwyliad i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaliadwyedd y polisi a chyflwyno unrhyw argymhellion yn dilyn adolygu'r Polisi Tâl i'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor yng nghyfarfod Hydref 11eg 2022, diwygiwyd Polisi Tal 2023/24 i adlewyrchu addasiad yng nghyflogau rhai o Benaethiaid Adran y Cyngor. Roedd yr addasiad yn ymateb i gais penodol gan y Pwyllgor yn Chwefror 2021 i'r Prif Weithredwr gynnal adolygiad o gyflogau prif swyddogion.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i awgrym bod uwch swyddogion yn derbyn tâl ychwanegol am oriau anghymdeithasol o gymharu â gofalwyr a staff rheng flaen sydd yn derbyn tâl sylfaenol am yr oriau hyn, cadarnhawyd nad oedd uwch swyddogion yn derbyn tâl ychwanegol a bod y Cyngor yn sefyll yn gadarn drwy sicrhau cyfartaledd a thegwch ar draws y gweithlu.

PENDERFYNWYD

Bod y Pwyllgor Penodi yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tal (drafft) i'r Cyngor ar Fawrth yr 2il 2023, fel un i'w fabwysiadau ar gyfer 2023/24

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 14:10